

MAE DIWEDD GAU GREFYDD YN AGOS

Nodyn i'r siaradwr:

Cyflwynwch yr anerchiad hwn ag argyhoeddiad, rhesymoldeb, ac urddas. Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi i'r Beibl ragfynegi diwedd gau grefydd. Pwysleiswch y ffrwyth cyferbyniol a gynhyrcha'r gwir grefydd a'r gau. Anogwch rai sy'n caru'r gwirionedd yn daer i ddod allan o gau grefydd a chofleiddio'r gwirionedd

MAE POB FFURF AR GREFYDD YN CAEL EI BARNU O FLAEN DUW HEDDIW (4 mun.)

'Rydym yn byw yn rhan olaf "y dyddiau diwethaf." Yn fuan fe fydd Duw yn gweithredu'i farnedigaethau yn erbyn holl ddrygioni'r byd (Yn fyr crynhowch 2 Timotheus 3:1-5, 13; yna darllen Jeremeia 25:31-33)

Duw 'nawr yn gwahanu'r rhai sy'n ceisio'r gwirionedd allan o gau grefydd. Rhaid i'r rhai sy'n ceisio'r gwirionedd arfer y wir grefydd; bydd Duw yn difa holl gau grefydd (Darllen Malachi 3:18)

DIENYDDIO GAU GREFYDD—AMSER GORTHRYMDER (5 mun.)

Bydd y "gorthrymder mawr" yn sicrhau dinistr gau grefydd, a elwir y "butain fawr" oherwydd iddi am ganrifoedd gyflawni godineb ysbrydol â threfn wleidyddol Satan (Darllen Mathew 24:21) (Dat 17:1, 2)

Gelwir y butain hefyd yn "Babilon Fawr," oherwydd ei bod, fel Babilon hen, yn ymerodraeth grefyddol gau (Dat 17:5, 15)

Bydd yr elfennau gwleidyddol yn troi'n elyniaethus yn ei herbyn yn sydyn a'i dinistrio, er syndod i'r rhai nad ydynt yn effro i broffwydoliaeth y Beibl (Darllen Datguddiad 17:16 ac ychydig ddyfyniadau o Ddatguddiad 18:9-19 sy'n dangos mor gyflym y'i dinistrir ac fel mae hynny'n syfrdanu llawer)

Ond mae gweision Duw yn llawenhau yn ei diwedd (Darllen Datguddiad 19:1, 2)

Yn derfynol, yn Armagedon, mae Duw yn dinistrio gweddill cyfundrefn Satan. (Dat 16:14, 16) Mae Datguddiad 19 yn enwi Crist fel Prif Ddienyddiwr Duw, yn arwain byddinoedd nefol enfawr (Darllen adnodau 11, 16-18)

Felly, mae'n fater o fywyd a marwolaeth i wahaniaethu rhwng gwir a gau grefydd. Sut? Dywedodd Iesu: "Wrth eu ffrwythau" (Darllen Mathew 7:15-18)

Y FFRWYTH DA Y MAE'N RHAID I'R RHEINY SY'N GWEITHREDU GWIR GREFYDD EI GYNHYRCHU (6 mun.)

Rhaid cynnal (1) AWDURDOD BRENHINOL Jehofah (Salmau 83:18); (2) ei ENW (In 17:6; Act 15:14; Rhuf 10:13); (3) ei DEYRNAS (Dan 2:44; Mth 6:9, 10; 24:14); (4) ei AIR (2Tim 3:16, 17)

Rhaid cael gwir gariad ymhlith ei gilydd yn fyd-eang; dim hiliaeth, cenedlaetholdeb, llwythgarwch (In 13:35; 1In 4:8, 20, 21)

Rhaid bod yn niwtral mewn gwleidyddiaeth, gan mai Satan sy'n rheoli'r byd hwn. (In 18:36; Iago 4:4; 1In 5:19)

Dim cymryd rhan mewn rhyfeloedd; golygai ladd brodyr. (Darllen Esea 2:2-4 a 1 Ioan 3:10-12) Mae gweision Duw yn heddychlon, yn dangos ffrwyth yr ysbryd (Gal 5:22; 1Pedr 3:11)

Rhaid bod yn gytûn o ran athrawiaeth (1Cor 1:10)

Rhaid cynnal safonau moesol uchel Duw; diarddelir pobl anfoesol anedifeiriol (1Cor 5:11-13; 6:9-11)

CYNNYRCH A FFRWYTH DRWG CREFYDDAU'R BYD HWN (11 mun.)

'Dydyn' nhw ddim yn amddiffyn awdurdod brenhinol Jehofah, na'i enw, na'i Deyrnas, na'i Air. 'Does dim cariad nac undod ganddynt ond maent yn rhanedig yn hiliol, yn genedlaethol, yn llwythol, yn wleidyddol, yn economaidd, yn gymdeithasol, ac o ran athrawiaeth

A hwythau'n rhan o gyfundrefn fyd-eang Satan, mae crefyddau'r byd hwn yn adlewyrchu ei ysbryd anfoesol a llofruddiol—yn cynhyrchu gelyniaeth, anghydfod; yn ymwneud â gwleidyddiaeth; yn lladd aelodau o'r un grefydd â hwy mewn rhyfeloedd, megis yn Rhyfeloedd Byd I a II ac yn ddiweddar yn Rwanda oherwydd casinebau llwythol (Gal 5:19, 20; cyfeiriwch eto at 1 Ioan 3:10-12; darllen Datguddiad 18:24)

Yn y gyfrol *Preachers Present Arms*, dywedodd yr awdur: "Yn hanes gwareiddiadau . . . , mae dau rym bob amser wedi'u clymu ynghyd mewn cynghrair ddeuol. Rhyfel a chrefydd ydyn' nhw. Ac, o blith holl grefyddau mawr y byd, . . . 'does yr un wedi bod yn fwy ymroddedig i [ryfel] na'r [Byd Cristnogol]"

Cyhoeddodd *The Sun* papur newydd yn Vancouver, Canada: "Gwendid pob crefydd gyfundrefnol efallai yw fod yr eglwys yn canlyn baner cenedlaetholdeb . . . Pa ryfel a frwydrwyd na hawliwyd gan bob ochr fod Duw gyda nhw?"

The New York Times: "Mae'r cyflafannau yn Rwanda wedi achosi i lawer o Babyddion yno deimlo iddynt gael eu bradychu gan hierarchaeth yr eglwys. . . . Yn aml 'roedd yr eglwys yno wedi'i rhannu oherwydd gwahaniaethau ethnig mewnol, rhwng Hutu a Tutsi." *National Catholic Reporter*: "Rwanda a Burundi yw dwy genedl mwyaf Pabyddol Affrica a'r mwyaf gwaedlyd"

Anfoesoldeb rhonc yn cael ei oddef ymhlith clergwyr a lleygwyr: godineb, puteindra, gwrywgydiaeth, paedophilia, anonestrwydd; ond dim esgymuno am dreisio deddfau Duw

Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd yr Unol Daleithiau wedi cyfaddef: "Rydym yn wynebu argyfwng ofnadwy o ran ei faint a'i oblygiadau. . . . Mae rhwng 10 a 23 y cant o glerigwyr wedi ymddwyn yn rhywioledig â phlwyfolion, cleientiaid, neu weithwyr, a.y.y.b. neu wedi eu cyffwrdd yn rhywiol"

Cadarnhaodd llywydd Cyngor Busnes a Diwydiant yr U.D. hyn, gan ddweud: "Mae sefydliadau crefyddol wedi methu â throsglwyddo eu gwerthoedd hanesyddol, ac yn llawer achos, maent wedi dod yn rhan o'r broblem foesol"

U.S. News & World Report yn nodi fod yr Eglwys Babyddol wedi talu cannoedd o filoedd o ddoleri o iawndal i deuluoedd Pabyddol oherwydd anfoesoldeb offeiriadon gyda'u plant

Mae'n union fel y dywedodd y diwinydd Danaidd Søren Kierkegaard unwaith: "Mae Byd Cred wedi gwneud i ffwrdd â Christnogaeth heb fod yn hollol ymwybodol o hynny"

Daeth y cylchgrawn *India Today* i'r casgliad: "Bu crefydd yn faner y cyflawnwyd troseddau erchyll yn ei henw. . . . Mae hi'n cynhyrchu trais aruthrol ac mae hi'n rym dinistriol iawn"

Mae Gair ysbrydoledig Duw yn collfarnu rhagrith gau grefydd (Darllen Mathew 15:7-9 a Titus 1:16)

Cyhoeddodd Iesu mai "arweinwyr dall" yn arwain canlynwyr dall yw arweinwyr gau grefydd; y ddau i syrthio i bydew (Mth 15:14) (Gweler *w90* 2/1, pp. 17-20, paragraffau 10-24, os dymunir rhagor o fanylion)

PA GREFYDD SY'N CYNHYRCHU FFRWYTH DUWIOL? (11 mun.)

Pwy sy'n cynhyrchu ffrwyth mae Duw yn gofyn amdano? Wel, pwy sy'n cynnal awdurdod brenhinol Jehofah, ei enw, ei Deyrnas, ei Air? Pwy sy'n dangos cariad ar raddfa fyd-eang? Pwy sy'n niwtral o ran gwleidyddiaeth, heb ddim rhan yn unrhyw ryfela cenedlaethol neu lwythol? Pwy sy'n unedig o ran athrawiaeth? Pwy sy'n cynnal safonau moesol uchel Duw? Dengys ffeithiau'r ganrif hon mai dim ond un grefydd sy'n cynhyrchu ffrwyth o'r fath—Tystion Jehofah

Ynglŷn â glynu'n glôs wrth Air Duw, dywedodd hyfforddwr prifysgol yn Ynysoedd y Philipinos: "Mae'r Tystion yn gydwbybodol weithredu'r hyn ddysgasant o'r Ysgrythurau"

Ynglŷn â gwrthodiad y Tystion i gymryd rhan yn rhyfeloedd y cenedloedd a lladd cyd-ddyn, ysgrifennodd lleian Babyddol mewn cylchgrawn eglwysig Eidalaidd *Andare alle genti*: "Mor wahanol fyddai'r byd petaem oll yn deftro un bore yn benderfynol o beidio â chodi arfau eto, . . . yn union fel Tystion Jehofah!"

Ynglŷn â'u cyfundrefn di-drosedd a'u parch at gyfraith, trefn, ac eiddo cymydog, cyhoeddodd colofnydd wrth ysgrifennu yn *Le Journal de Montréal*, Canada: "Petai dim ond Tystion Jehofah yn y byd, 'fyddai dim rhaid inni foltio'r drws ynghlo gyda'r nos na throir larwm lladron ymlaen"

Ynglŷn â'u hundod, dywedodd *Veredicto*, papur newydd Mecsicanaidd fod ganddynt "undod ffydd canmoladwy sydd fel petai yn eu gosod nhw ar wahan ble bynnag y'u ceir nhw"

Ynglŷn â'u moesoldeb, ysgrifennodd gŵr o Dde Affrica: "Rwy'n meddwl yn uchel iawn o foesau ac ymarweddiad y Tystion. Chi ydi'r unig fath o Gristnogaeth y mae ei haelodau yn gyson arfer yr hyn a arddelant"

Gan ddangos fod Tystion yn amlwg iawn fel rhai yn cynhyrchu'r ffrwyth duwiol angenrheidiol, ysgrifennodd offeiriad Pabyddol yn y cylchgrawn *Time*, wrth drafod crefyddau'r byd: "Fedra' i ddim mwyach wahaniaethu rhwng y crediniwr a'r pagan. Mi fedraf 'nabod Tystion Jehofah . . . ond nid canlynwyr y gwahanol grefyddau traddodiadol eraill"

Yn wir, wrth eu ffrwyth yr adwaenir Tystion Jehofah fel rhai a chanddynt y wir grefydd, a'u cynnal gan Ysbryd Duw (Eseia 43:10-12)

BYDD DUW YN FUAN YN DINISTRIO HOLL GAU GREFYDD (4 mun.)

Rhagfynegodd Iesu y byddai gau grefydd, a adwaenir wrth ei ffrwyth drwg sy'n ganlyniad treisio deddfau Duw, "yn cael ei thorri i lawr a'i bwrw i'r tân" (Mth 7:19-23)

Disgrifiwch yr hyn ddigwyddodd rhwng addolwyr Baal a'r rhai a addolai Jehofah (1Bren, pennod 18; yna darllen adnodau 36-40)

Ffordd eang yn arwain i ddistryw yw gau grefydd. (Mth 7:13, 14) Fe'i dinistrir am byth cyn bo hir (Darllen Datguddiad 18:21, 22)

Rhaid i bawb sy'n dymuno cymeradwyaeth Duw a bywyd yn y dyfodol roi sylw i rybudd Duw i 'ddod allan ohoni' (Darllen Datguddiad 18:4)

Rhaid gwneud yr hyn mae negesydd angylaidd Duw yn ei annog (Darllen Datguddiad 14:7)

BYDD GWIR GREFYDD YN GOROESI DIWEDD Y BYD HWN (4 mun.)

Mae Jehofah yn diogelu ei wir addolwyr (Diar 18:10)

Dewch yn rhan o'r "dyrfa fawr," sy'n addoli Jehofah ac yn goroesi diwedd y byd. (Dat 7:9, 10, 13-15) Hyd yn oed os byddant farw, o salwch, trwy ddamwain, o henaint, cyn diwedd y byd, cânt sicrwydd atgyfodiad (Act 24:15)

Mae'r rhai ffyddlon yn edrych ymlaen â hyder at fywyd tragwyddol mewn byd newydd cyfiawn ac at fwynhau iechyd perffaith, heddwch, a diogelwch ar ddaear Baradwys, yn fythol rydd oddi wrth gau grefydd a chyfundrefn anghyfiawn Satan (Salmu 37:10, 11, 29; In 17:3; 2Pedr 3:13; Dat 21:4, 5)

('Does dim rhaid darllen ysgrythurau a grybwyllir, nas rhagflaenir gan "Darllen," yn eu cyfanrwydd, ond gellir darllen y rhan allweddol o'r ysgrythur sy'n cadarnhau'r ddaidl neu gyfeirio ato fel y bydd amser yn caniatáu)